2.00pm, Dydd Mercher 29 Medi 2021
Cyfarfod Rhithwir

**COFNODION**

| Yn bresennol | |
|---|---|
| **Enw** | **Sefydliad** |
| Barry Liles (Cadeirydd) | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Y Cynghorydd Mair Stephens | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Huwel Manley | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Uwcharolygydd Gary Phillips | Heddlu Dyfed-Powys |
| Carys Morgans | Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| Ruth Mullen | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Kevin Jones | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Y Cynghorydd Elwyn Williams | Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Anna Bird | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Marie Mitchell | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr |
| Wyn Morris | Adran Gwaith a Phensiynau |
| Andrew Charles | Llywodraeth Cymru |

| Hefyd yn bresennol | |
|---|---|
| **Enw** | **Sefydliad** |
| Gwyneth Ayers | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Kate Harrop | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Wendy Phillips | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Helen Morgan | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Rhian Phillips | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Kim Neyland | Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru |
| Mark Galbraith | Cyngor Gwledig Llanelli |
| Amy Richmond-Jones | Canolbarth a Gorllewin Cymru |

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd Barry Liles, y Cadeirydd, bawb i'r cyfarfod rhithwir a chyflwynwyd y gwesteion.

| Ymddiheuriadau | |
|---|---|
| **Enw** | **Sefydliad** |
| Y Cynghorydd Emlyn Dole | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Maria Battle | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |

| | |
|---|---|
| Ros Jervis | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Huw Thomas | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Andrew Cornish | Coleg Sir Gâr |
| Christine Harley | Y Gwasanaeth Prawf |
| Martyn Palfreman | Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru |

## 2. 10 Tref Wledig

Rhoddodd Helen Morgan, Rheolwr Datblygu Economaidd, gyflwyniad ar y fenter 10 Tref Wledig a nodwyd yn yr adroddiad Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen gan y Cyngor. Mae'r fenter wedi'i mabwysiadu yng nghynllun adfer economaidd y sir. Daw'r cyllid o Raglen LEADER yr UE drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig a chyllid craidd gan y Cyngor.

Ers mis Medi 2020, comisiynwyd dau ymgynghorydd i baratoi cynlluniau twf ar gyfer pob un o'r deg tref. Mae wyth ohonynt wedi'u cwblhau ac mae'r ddau arall i fod i gael eu cwblhau erbyn diwedd mis Hydref. Mae pob cynllun twf yn nodi'r angen lleol a bydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn ôl y gofyn. Mae Grŵp Cynllun Twf yn cael ei sefydlu ar gyfer pob un o'r 10 tref ac maent bellach yn dechrau cwrdd a byddant yn datblygu syniadau.

Mae amryw o ffrydiau cyllido i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynlluniau, gan gynnwys £1m o raglen gyfalaf y Cyngor, grantiau cychwyn busnes a datblygu busnes, cronfeydd datblygu eiddo a chyllid LEADER gwerth £100k sydd wedi'i glustnodi i alluogi'r cymunedau i ddatblygu syniadau arloesol sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau. Mae dau Swyddog Trefi Marchnad Gwledig wedi'u recriwtio i gefnogi'r ardaloedd i ddatblygu syniadau. Bydd trydydd swyddog yn cael ei recriwtio ond mae'r swydd yn cael ei hail-hysbysebu ar hyn o bryd.

Y themâu allweddol a gwmpesir gan y cynlluniau twf yw: buddsoddi mewn safleoedd busnes i gefnogi busnesau newydd, twf ac ehangu busnesau, grant busnes 'Iaith Gwaith', lle ceir cysylltiadau rhwng twf economaidd a'r Gymraeg drwy dwf busnesau; trefi digidol/clyfar; hybiau gwaith a gweithleoedd a rennir, gan edrych ar greu pedwar prif hwb, un ar gyfer pob ardal ddaearyddol; sgiliau; mentrau twristiaeth gan gynnwys cerdded a beicio; ynni cymunedol; ac economi gylchol. Gofynnwyd i bob Fforwm Twf Tref flaenoriaethu ei geisiadau am brosiectau i'w cyllido o'r £1m. Yna, byddai'r ceisiadau yn cael eu hasesu. Gwnaed cais am gymorth a mewnbwn parhaus gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'r fenter gyfan a gofynnwyd a allai aelodau'r BGC roi gwybod i'r Cyngor am unrhyw ddatblygiadau neu fentrau yr oeddent yn eu cynllunio yn unrhyw un o'r 10 tref wledig.

Holodd Anna Bird sut y gellid ymgorffori'r sefydliadau angori a'u cysylltiadau â gwerth cymdeithasol ac iechyd ehangach yn y 10 tref. Atebodd Helen Morgan y byddai'n cysylltu ag Anna y tu allan i'r cyfarfod i fynd ar drywydd hyn.

Dywedodd y Cynghorydd Mair Stephens y gellid rhoi'r offer ar gyfer trefi clyfar ar adeiladau nad ydynt yn adeiladau'r cyngor os yw'n briodol. Ychwanegodd Huwel Manley fod gan CNC nifer o adeiladau mewn ardaloedd gwledig y gellir eu defnyddio.

Teimlai Kevin Jones fod angen gwell cysylltiadau rhwng prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio'r BGC a'r fenter 10 Tref.

| GWEITHREDU | |
|---|---|
| Annog ceisiadau am swydd y Swyddog Trefi Gwledig | Pawb |
| Rhoi gwybod am heriau recriwtio i'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol | Pawb |
| Dosbarthu Cynlluniau Twf y 10 Tref pan fyddant ar gael. | Tîm Cynorthwyo BGC |
| Cyflwyno diweddariad ar 10 Tref Wledig mewn cyfarfod yn y dyfodol. | Tîm Cynorthwy BGC |
| Rhoi gwybod i Dîm Cymorth y BGC am unrhyw ddatblygiadau neu brosiectau parhaus gan aelodau'r BGC yn unrhyw un o'r 10 Tref Wledig – Dyffryn Aman, Cwm Gwendraeth, Cydweli, Talacharn, Llandeilo, Llanymddyfri, Llanybydder, Castellnewydd Emlyn, Sanclêr a Hendy-gwyn ar Daf. | Pawb |

## 3. Cynllun Gwydnwch Hinsawdd Castellnewydd Emlyn - Rhagfyr 2020

Rhoddodd Huwel Manley gyflwyniad ar y prosiect peilot a gynhaliwyd yng Nghastellnewydd Emlyn.

Daeth y prosiect o'r gwaith cychwynnol a wnaed yn 2019 pan ofynnodd y Grŵp Cyflawni Amgylchedd Iach am ymgysylltu â nifer o gymunedau. Yn 2020 penderfynwyd gwneud ymchwil fanylach i ddeall canfyddiad y cyhoedd o risgiau newid yn yr hinsawdd a'r effaith ar y gymuned, edrych ar sut y gallai cymunedau baratoi'n well ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd a'r hyn y gallant ei wneud. Roedd y prosiect yn ymgysylltu â'r sector cyhoeddus, y gymuned wirfoddol a thrigolion. Oherwydd Covid-19, bu'n rhaid ymgysylltu ar-lein a effeithiodd ar nifer y cyfranogwyr.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys pedwar argymhelliad:

- Sefydlu Rheithgor Dinasyddion
- Datblygu Cynllun Ymateb i Argyfwng dan Arweiniad y Gymuned
- Paratoi Senario Castellnewydd Emlyn 2050 ar gyfer y Dyfodol
- Datblygu Map Risgiau Hinsawdd ac Asedau

Mae'r rhain wedi cael eu hystyried gan y Grŵp Cyflawni Amgylchedd Iach a gytunodd i ddatblygu'r Cynllun Ymateb i Argyfwng dan Arweiniad y Gymuned, ar y cyd â'r prosiect 10 tref, a'r Map Risgiau Hinsawdd ac Asedau a fydd yn cael ei ddatblygu ar y cyd â chymorth gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant fel prosiect myfyrwyr.

Gofynnwyd i'r BGC gefnogi'r gwaith, drwy'r Grŵp Cyflawni Amgylchedd Iach.

Cafwyd trafodaeth rhwng Ruth Mullen a Huwel Manley ar y Cynllun Ymateb i Argyfwng a sut roedd hyn yn gysylltiedig â datblygiadau cymunedol presennol. Cytunwyd y byddai'r drafodaeth yn parhau y tu allan i'r cyfarfod.

Dywedodd Marie Mitchell fod yr adroddiadau drafft ar gyfer y Gwaith Adfer Gwirfoddoli yn sgil y Coronafeirws wedi dod i law a bod cysylltiadau rhwng y gymuned a'r trydydd sector o ran cynlluniau ymateb.

| GWEITHREDU |
|---|

| | |
|---|---|
| Cysylltu â Grŵp Cydnerthu Cymunedol Fforwm Lleol Cymru Gydnerth ynghylch ymrwymiadau i ardaloedd eraill o ran Cynlluniau Ymateb i Argyfwng dan Arweiniad y Gymuned. | Huwel Manley a Kate Harrop |
| Rhannu'r adroddiad drafft ar y Gwaith Adfer Gwirfoddoli yn sgil y Coronafeirws gyda Huwel Manley a chyfarfod i drafod hynny. | Marie Mitchell |

## 4. Cynnig y BGC ynghylch Ffyrdd Newydd o Weithio ar gyfer Llandeilo

Rhoddwyd trosolwg ar y Cynnig ynghylch Ffyrdd Newydd o Weithio ar gyfer Llandeilo. Mae'r gwaith o fapio asedau partneriaid y BGC, gan ganolbwyntio ar dair prif dref, sef Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman, yn ogystal â'r 10 tref, wedi dangos bod y rhan fwyaf o asedau wedi'u lleoli yn y tair prif dref, ond mae rhai trefi gwledig sydd â nifer o asedau. Cytunwyd i ganolbwyntio ar Landeilo fel cynllun peilot, er bod trefi eraill o ddiddordeb, sydd â chysylltiad clir â'r 10 tref, gan nad oes ganddynt unrhyw bresenoldeb gan y sector cyhoeddus ar hyn o bryd.

Mae'r ffocws wedi bod ar dair ffordd o weithio – mannau gweithio ystwyth; mannau sy'n delio â chwsmeriaid; a mannau cyswllt ar gyfer gweithwyr allgymorth. Mae Adeiladau'r Cyngor ar waelod y maes parcio cyhoeddus yn Llandeilo ac mae potensial i ddatblygu'r safle. Mae yno ystafell fawr sy'n addas i dreialu hwb amlasiantaeth. Mae Adeiladau'r Cyngor hefyd yn gartref i'r llyfrgell gyhoeddus sydd wedi nodi y byddai croeso i asiantaethau'r BGC ddefnyddio'r lle pan fydd ar agor ar gyfer unrhyw hyrwyddiadau neu ddigwyddiadau sy'n delio â chwsmeriaid. Mae trydedd elfen y cynnig ar gyfer gweithwyr allgymorth. Mae gan yr Orsaf Dân ystafell gymunedol sy'n addas ar gyfer mynediad, e.e. gofalwyr cartref, gweithwyr cymdeithasol ac ati. Cynigir cyfnod treialu o chwe mis ar gyfer Adeiladau'r Cyngor a'r Orsaf Dân yn Llandeilo, ac yna ystyrir yr opsiynau eraill sydd ar gael, e.e. ystafelloedd cyfarfod, ystafelloedd clinigol.

Cytunwyd i fwrw ymlaen â'r cynnig, ond oherwydd y cyfyngiadau Covid-19 presennol, mae'n debygol na fydd yn weithredol tan ddechrau 2022. Bydd cyfathrebu rhwng partneriaid y BGC yn bwysig, a chynghorir staff i ddefnyddio'r hwb os ydynt yn yr ardal. Bydd monitro'r defnydd yn rhan bwysig o'r cynllun peilot.

| GWEITHREDU | |
|---|---|
| Datblygu Cynnig y BGC ynghylch Ffyrdd Newydd o Weithio ar gyfer Llandeilo. | Gwyneth Ayers |

## 5. Cofnodion a Materion yn Codi

Ymddiheurodd Barry Liles am ganslo'r gweithdy a oedd i ddilyn y cyfarfod hwn. Bydd hyn yn cael ei ailystyried.

<u>15 Gorffennaf 2021</u>
Derbyniwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir.

<u>Cofnod o'r Camau Gweithredu</u>
Darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu blaenorol.

## 6. Cynllun Llesiant Cyngor Sir Caerfyrddin - Y Wybodaeth Ddiweddaraf

Cynnig ynghylch Mannau Bwyd Cynaliadwy

Rhoddwyd amlinelliad o'r cynnig a ddeilliodd o drafodaethau yn dilyn y gwaith gyda CLES ar gaffael bwyd lleol. Roedd un o argymhellion ei adroddiad ar gyfer sefydliadau angori yn ymwneud â datblygu strategaeth fwyd. Ers i ni gytuno ar yr adroddiad, mae Rhwydwaith Bwyd Sir Gaerfyrddin wedi'i sefydlu, wedi'i hwyluso drwy Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr - CAVS, ac mae wedi dwyn ynghyd amrywiaeth eang o grwpiau cymunedol sy'n gweithio yn y sector bwyd, e.e. banciau bwyd, grwpiau prydau poeth, perllannau cymunedol, cynlluniau tyfu cymunedol, ac ati. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni fwrw ymlaen â'r drafodaeth mewn ffordd lawer mwy cydgysylltiedig gyda'r amrywiaeth o bartneriaid.

Bwriedir gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys Rhwydwaith Bwyd Sir Gaerfyrddin, i ddatblygu cais erbyn cyfnod ymgeisio Mawrth 2022 i Sir Gaerfyrddin fod yn Lle Bwyd Cynaliadwy cydnabyddedig.

Cymeradwywyd y cynnig yn unfrydol.

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf hefyd ar brosiect yr Economi Sylfaenol. Daeth Cam 1 i ben ddiwedd mis Mawrth 2021 a oedd yn canolbwyntio ar elfen gaffael y sector cyhoeddus. Mae gwaith i weithredu'r argymhellion sy'n ymwneud â chaffael bellach yn cael ei wneud. Mae prosiectau hefyd yn cael eu datblygu a fydd, gobeithio, yn ennill cyllid ac mae Gwyneth Ayers yn gweithio gyda sefydliad o'r enw Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol sy'n disgwyl cadarnhad ynghylch cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiect i ddatblygu canolfan fwyd yn Sir Gaerfyrddin. Byddent yn gweithio ar gael y cynhyrchwyr a chynyddu cynhyrchiant drwy ganolfan fwyd ac mae cyfleoedd am gysylltiadau â gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu hystyried. Roedd y Cyngor Sir hefyd wedi cyflwyno cais i'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer prosiect cadwyn gyflenwi, ac mae disgwyl cyhoeddiad erbyn mis Hydref ar ganlyniad y cais. Mae’r cais i Lywodraeth Cymru ar gyfer Cam 2 prosiect yr Economi Sylfaenol wedi sicrhau £100,000 arall a fydd yn canolbwyntio ar waith y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei arwain.

Rhoddodd Huwel Manley wybod am weithdy a gynhaliwyd yn y bore ar garbon niwtral net i bartneriaid yn y sector cyhoeddus. Roedd yn ymdrin â materion carbon sy'n gysylltiedig â chaffael. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar sut i gyfrifo hyn a byddai o fudd edrych ar y treialon caffael.

Cynllun Gwaith

Rhoddwyd trosolwg o'r diweddariadau ac fe'u dangosir mewn print trwm ar bapurau'r cyfarfod.

| GWEITHREDU | |
|---|---|
| Cadarnhau a oes Bil Aelod Preifat arfaethedig ar gyfer Strategaeth Fwyd i Gymru. | Andrew Charles |
| Cysylltu â Kendal Davies ynghylch lleihau carbon a chaffael. | Kate Harrop |

## 7. Y Diweddaraf am Asesu Llesiant

Rhoddwyd trosolwg ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Asesiad Llesiant.

Mae'r arolwg yn fyw ar hyn o bryd ac yn cau ddydd Gwener 8 Hydref. Cynhelir nifer o sesiynau ymgysylltu ar draws y sir, gan gysylltu ag amrywiaeth eang o grwpiau.

Mae Cydgysylltydd y Prosiect Llesiant Rhanbarthol yn ei swydd ac mae'n cynorthwyo gyda'r elfennau rhanbarthol, e.e. dadansoddi data, ymgysylltu, ac ati.

Mae dadansoddiad data ar y gweill a bydd casglu ystod ehangach o ddata ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol yn llywio'r gwaith o ysgrifennu'r Asesiad Llesiant.

Mae'r System Gwybodaeth Ddigidol yn y cam profi ar hyn o bryd ac maent yn edrych ymlaen at ei lansio.

| GWEITHREDU | |
|---|---|
| Ystyried canfyddiad Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 fel rhan o'r Asesiad Llesiant a chynghori'r BGC ynghylch y camau nesaf. | Tîm Cynorthwy BGC |

## 8. Unrhyw Fater Arall

Nid oedd unrhyw fater arall